OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 519 (Cy.63)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*28 Chwefror 2006*
Yn dod i rym - -	*3 Mawrth 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1) ac (1A)(e) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddo yr effeithir arnynt, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 3 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Ffioedd

2.—(1) Rhaid i berson sy'n gwneud cais am gael tatws hadyd wedi'u dosbarthu dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei swyddogaethau o dan Reoliadau Tatws Hadyd 1991(**3**) ac a restrir yn yr Atodlen, neu i unrhyw berson a awdurdodir ganddo i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar ei ran, y ffioedd a restrir yn yr Atodlen o ran y swyddogaethau hynny.

(2) Mae'r ffi a bennir yn yr Atodlen fel y ffi sy'n daladwy am bob swyddogaeth yn ddarostyngedig i unrhyw leiafswm ffi a bennir yno.

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16(1) a mewnosodwyd adran 16(1A) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 5(1) a (2).

(**2**) O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (OS 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan y Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**3**) OS 1991/2206, a ddiwygiwyd gan OS 1992/1031, 1993/1878, 1994/2592, 1997/1474, 2001/3666. Mae swyddogaethau wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Erthygl 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

Tynnu cais yn ôl

3. Os yw person sy'n gwneud cais am gael tatws hadyd wedi'u dosbarthu yn tynnu ei gais neu ei chais yn ôl cyn i'r arolygydd gyrraedd er mwyn arolygu'r cnwd am y tro cyntaf, rhaid i'r person hwnnw neu honno dalu ffi o £15 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu i unrhyw berson a awdurdodir ganddo i wneud arolygiad o'r fath ar ei ran.

Dirymu rheoliadau blaenorol

4. Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Ffioedd) 1998(**4**) yn cael eu dirymu mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
28 Chwefror 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlathol

(**4**) OS 1998/1228.
(**5**) 1998 p.68